Diweddariad i Aelodau Llais y Goedwig
Ionawr 2011

Annwyl Aelodau Llais y Goedwig

Croeso cynnes i grwpiau ac unigolion newydd sydd wedi ymuno â ni yn ddiweddar. Fy enw i ydi Jo Cooper ac rwyf wedi dechrau ar swydd y Cynorthwy-ydd Gweinyddol yn ddiweddar i ymuno â Chloe Griffiths sydd yn Gydlynydd y Rhwydwaith. Byddaf yn gweithio 15 awr yr wythnos. Fel canllaw (tan fis Mawrth) byddaf ar gael yn y swyddfa ar foreau dydd Llun a dydd Gwener a thrwy'r dydd Dydd Mawrth. Gallwch gysylltu â mi drwy e-bost neu ar rif y swyddfa 0845 456 0342. Gadewch neges neu anfonwch e-bost ar ddyddiau eraill a byddaf mewn cysylltiad â chi. Mae Chloe yn gweithio drwy'r dydd ar ddydd Llun, ac ar fore Mawrth a Mercher.

Cynnwys:

- Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol
- Astudiaethau Achos
- Yn eisiau: Cyfarwyddwr newydd
- Gwefan
- Cyhoeddiadau
- Tendr Coed Tân Comisiwn Coedwigaeth Cymru 2011
- Gwerthu Coedwigoedd Lloegr
- Mae 2011 yn Flwyddyn Ryngwladol y Coedwigoedd
- Digwyddiad ar y cyd yn Ne Cymru
- Ymgysylltu â pholisi
- Cyllid

Cynhadledd Flynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol: *Cyllido Coedlannau Cymunedol Cynaliadwy*

Mae'r gwaith o gynllunio ar gyfer y Gynhadledd a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 11 a 12 Mawrth bellach ar y gweill. Dylech fod wedi derbyn taflen gyda'r diweddariad

hwn ac rydym yn edrych ymlaen at dderbyn llawer o ffurflenni archebu lle yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Rhowch wybod inni eich bod yn dod cyn gynted ag y gallwch oherwydd rydym yn disgwyl llawer o ddiddordeb ac mae'r lleoedd yn brin. Bydd Eleanor Burnham AC Gogledd Cymru yno ar y diwrnod cyntaf ac yn rhoi sylwadau agoriadol.

Rydym yn cynllunio dau ddiwrnod prysur yn ymchwilio i ddewisiadau ar gyfer cynhyrchu incwm cynaliadwy i'ch grŵp chi. Rydym wedi trefnu dewis amrywiol o siaradwyr a chyllidwyr (pynciau sydd wedi'u cadarnhau, i'w cyflwyno mewn cromfachau) gan gynnwys:

- **Cronfa'r Loteri Fawr** – (Pobl a Lleoedd)
- **Canolfan Gydweithredol Cymru** - Menter Gymdeithasol
- **Cadwyn Clwyd** (cyllid LEADER /CDG (RDP)
- **CGGC (WCVA)** - Symleiddio Tendro ac ati
- **Comisiwn Coedwigaeth Cymru** – (Glastir)
- **Canolbwyntio ar Goedwigaeth yn Gyntaf**
- **Amgylchedd Cymru**
- **Cadwch Gymru'n Daclus**

I gael rhestr ddiweddar gweler y wefan

Y lleoliad eleni fydd Melin hyfryd Brookhouse (http://www.brookhousemill.co.uk) sydd mewn rhan hardd iawn o'r wlad ger Dinbych, a hefyd ger y Ganolfan Sgiliau Coedlannau y byddwn yn ymweld â hi ar y dydd Sadwrn.

Os ydych yn chwilio am ffyrdd o greu arian sy'n angenrheidiol i wneud eich syniadau weithio, yna allwch chi ddim fforddio colli'r digwyddiad hwn. Mae'r llefydd yn brin ac fe'u dyrennir ar sail y cyntaf i'r felin. Gallwch sicrhau eich lle drwy lenwi a dychwelyd y ffurflen archebu lle a atodir.

Astudiaethau Achos

O dan brosiect y Comisiwn Coedwigaeth mae Llais y Goedwig wedi comisiynu pump o astudiaethau achos gan grwpiau sy'n barod i rannu eu profiadau i bobl eraill ddysgu oddi wrthynt. Gobeithiwn gael yr astudiaethau achos cyntaf ar gael yn y gynhadledd. Comisiynwyd astudiaethau achos oddi wrth:

- Coedlan Gymunedol Blaen Bran
- Coed Marros,
- Llangatwg
- Ymddiriedolaeth Coedwigaeth Ruperra
- Coed y Bobl.

Cewch glywed rhai storïau ysbrydoledig, gwych yma.

Yn Eisiau – Cyfarwyddwyr Newydd

Ydych chi'n teimlo'n angerddol ynglŷn â chymunedau a choedlannau yng Nghymru a sut y gallant fodloni galwadau cymdeithas yn y dyfodol? Ydych chi'n barod i ddefnyddio eich talentau i helpu Llais y Goedwig i dyfu?

Os oes gennych sgil y gallech ei chynnig, fel marchnata, Cysylltiadau Cyhoeddus, codi arian, ysgrifennu erthyglau, arbenigedd coedwigaeth, siarad cyhoeddus neu

gynhyrchu syniadau, os oes gennych rai oriau i'w sbario bob wythnos, mae'r Bwrdd yn dymuno recriwtio 2-3 o gyfarwyddwyr newydd.

I gael mwy o wybodaeth am beth mae'r Bwrdd yn ei wneud edrychwch ar y cofnodion: http://llaisygoedwig.org.uk/about/board_meetings/. Rhowch wybod i Chloe os dymunwch ddarganfod mwy am beth mae hyn yn ei olygu a gadewch iddi gael eich enwebiad erbyn y 1af o Fawrth.

Gwefan

Mae'r wefan wedi bod yn araf yn datblygu dros y naw mis diwethaf ac mae bellach yn cynnwys dim llai na 55 tudalen o wybodaeth am sut mae Llais y Goedwig yn gweithio, beth rydym wedi bod yn ei wneud a gwybodaeth y gobeithiwn fydd o ddefnydd i aelodau. Mae cam cyntaf y datblygiad yn dirwyn i ben ac rydym wedi dechrau ar gyfieithu'r tudalennau. Byddwch yn amyneddgar – bydd y cyfan yn y Gymraeg yn fuan. Yn y cyfamser edrychwch ar beth sydd yno'n barod a rhowch wybod inni beth yw eich barn.

http://www.llaisygoedwig.org.uk

Cyhoeddiadau

Mae Llais y Goedwig wedi bod yn gweithio ar ystod o gyhoeddiadau yn deillio o weithdai blaenorol a Sioe Deithiol Haf 2010. Gobeithiwn y bydd y saith teitl cyntaf ar gael yn y gynhadledd a byddant ar gael hefyd fel pdf i'w lawrlwytho o'r wefan.

Cyfres Nodiadau Ymgynghorol

AN1: Grwpiau Coedlannau Cymunedol: Rhagarweiniad

AN2: Dod i adnabod eich cymuned

AN3: Dod i adnabod eich coedwigoedd

AN4: Ysgrifennu Cynllun Rheoli

AN5: Rhagarweiniad i newid hinsawdd

AN6: Troseddau coedlannau

AN7: Diffinio amcanion

Tendr Coed Tân Comisiwn Coedwigaeth Cymru 2011

Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar fin cyhoeddi ei ail dendr blynyddol ar gyfer lotiau bychan o goed tân ar draws Cymru. Y nod yn y cylch cyntaf oedd galluogi cyflenwyr tanwydd coed ar raddfa fechan a grwpiau cymunedol i gasglu coed dros ben (a oedd ar ôl wedi i goed gael eu torri) i'w defnyddio fel tanwydd coed (coed tân ac ati). Bydd CCC(FCW) yn cynhyrchu adroddiad am y cylch cyntaf ond rydym eisoes yn gwybod mai ychydig o grwpiau cymunedol sydd wedi ymateb. Mae Llais y Goedwig, ynghyd â Wood Fuel Wales, Partneriaeth Coedlannau ar gyfer Busnes a

CONFOR, yn gweithio gydag CCC (FCW) ar yr ail dendr i wella hygyrchedd ac ymwybyddiaeth ynglŷn â'r cyfle hwn. Os hoffech dendro am gontract coed tân, ac yn arbennig os nad oeddech yn hapus ynghylch gwneud hynny yn y cylch cyntaf, ewch i'n gwefan lle rydym yn gofyn barn aelodau ynglŷn ag ymateb i dendrau CCC (FCW). Os dymunwch ddarganfod mwy am dendro i CCC ewch i http://www.forestry.gov.uk/wham.

Gwerthu Coedwigoedd Lloegr

Fel rydych yn sicr yn gwybod mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi ei bwriad i werthu 2,500 km sgwâr o dir cyhoeddus a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Lloegr i godi rhwng £150 a £250 miliwn. Mae hyn wedi cynhyrchu llawer o wrthwynebiad a dadleuon ynglŷn â gwerth perchnogaeth gyhoeddus coedwigoedd. Mae'n ddiddorol nodi bod y rhan fwyaf o'r pryderon a fynegwyd yn ymwneud â'r effeithiau posibl ar fioamrywiaeth, yn arbennig safleoedd sy'n goedwigoedd hynafol (yn arbennig Coedwig Dean a'r New Forest) neu rai y gellid eu hadfer i rywogaethau brodorol (safleoedd PAWS), coedwigoedd gyda defnydd adloniadol uchel (Thetford, Grizedale ac ati) ac yn gyffredinol ynglŷn â mynediad cyhoeddus. Mae cefnogaeth i ddefnydd cymunedol y goedwig fel ased economaidd lleol yn llawer llai amlwg ac mae llai o wrthwynebiad i werthu blociau mawr o dir conwydd masnachol fel Kielder. Mae Carolyn Spelman wedi dweud ei bod yn "bryd i'r Llywodraeth gamu'n ôl oddi wrth reoli coedwigoedd, a sicrhau bod "mynediad i'r cyhoedd yn cael ei gynnal a bioamrywiaeth yn cael ei warchod". Gallai gweld "y llywodraeth yn camu'n ôl" olygu llawer o bethau e.e. cytundebau rheoli gydag ychwanegiad gwerth lleol ar werthiannau cynhyrchion coedwigaeth yn helpu i dalu treuliau gweithredol ac ati. Dim ond prydlesau gwerth y farchnad lawn sy'n cael eu cynnig ar hyn o bryd. Ar adeg pan fo'n fwy a mwy anodd codi arian, a ddylai cymunedau ac elusennau godi'r arian i brynu'r prydlesau? Hyd yn oed os oes rhaid inni godi cyfalaf drwy werthu'r trysorau - a fyddem yn disgwyl cael pris da drwy foddi'r farchnad mewn cyfnod o ddirwasgiad economaidd?

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru? Wedi'r cyfan, mae gennym sicrwydd cadarn gan Elin Jones, Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i werthu unrhyw dir coedwigaeth sy'n perthyn i LICC. Ond mae rhesymau cymhellol o hyd pam y dylem ni yng Nghymru gymryd diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd ar draws y ffin.

1) Gall unrhyw un sydd wedi cerdded mewn coedwig yn Lloegr[1] ystyried ei hun yn rhan-ddeiliad yn eu dyfodol felly dylent deimlo'n rhydd i ymateb i'r ymgynghoriad ar ddewisiadau ynglŷn â pherchnogaeth coedwigoedd Lloegr.
2) Gall beth bynnag sy'n digwydd yn Lloegr gael ei ddefnyddio yma maes o law – wedi'r cyfan mae gennym etholiad ar y gorwel. Felly dylem wneud beth fedrwn ni i sicrhau bod yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr yr hyn y dymunwn ei weld yn digwydd yma.

Os hoffech weithredu dyma rai awgrymiadau.

1) Ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus - rhowch wybod i'r Llywodraeth beth yw eich barn .
http://www.forestry.gov.uk/england-pfeconsultation

[1] Os nad ydych wedi gwneud hynny, yna mae'n werth ymweld â choedwig Dean a Delamere sydd ill dwy ar y Gororau

2) Arwyddo deiseb
38 Gradd – Deiseb y gymdeithas sifil (>300,000 wedi ei llofnodi ar 30 Ionawr)
http://www.38degrees.org.uk/page/s/save-our-forests#petition

Yr Ymddiriedolaeth Coedlannau – yn ymwneud yn bennaf â diogelu coedlannau hynafol brodorol http://www.woodlandtrust.org.uk/en/campaigning/save-ancient-forests/Pages/fc-disposals-act-now.aspx

3) Gofynnwch i'ch ymgeiswyr AC ar gyfer yr etholiadau sydd i ddod beth yw eu barn ynglŷn â gwerthu coedwigoedd cyhoeddus – gadewch iddynt wybod ein bod yn malio ac yn gwylio.

2011 yw Blwyddyn Ryngwladol y Coedwigoedd

Eleni yw Blwyddyn Coedwigoedd y Cenhedloedd Unedig gyda'r thema 'Coedwigoedd i Bobl'. Cefnogir hyn gan y Comisiwn Coedwigaeth ac maent wedi mabwysiadu hyn fel eu thema ar gyfer 2011 h.y. disgwyliwch weld hyn ar stondin CCC yn y Sioe Frenhinol ac ati. Mae Llais y Goedwig yn y broses o gofrestru gyda'r Cenhedloedd Unedig fel y gallwn ddefnyddio'r logo a sicrhau bod ein digwyddiadau yn cael eu cydnabod fel rhai sy'n cyfrannu at y thema hon. Rydym yn gobeithio dangos rhai o enillwyr yr Ŵyl Ffilmiau Coedwigoedd yn y Gynhadledd ym mis Mawrth. Efallai y gallai eich grŵp chi hefyd gyfrannu at Flwyddyn Ryngwladol y Coedwigoedd mewn rhyw fodd.

http://www.un.org/en/events/iyof2011/
http://www.jhfestival.org/forestfestival/index.htm

Digwyddiad ar y cyd 2011 yn ne Cymru

Gwahoddwyd Llais y Goedwig i fod yn bartner mewn digwyddiad rhwydweithio/hyfforddiant rhanbarthol ym Mhen y Gele ger Abertawe yn yr haf. Mwy o fanylion i ddilyn yn fuan.

Ymgysylltu â pholisi

Mae'r chwe mis diwethaf wedi bod yn amser prysur iawn yn nhermau cynnwys Llais y Goedwig mewn datblygu polisi yng Nghymru. Mae'r chwe mis i flwyddyn nesaf yn mynd i fod hyd yn oed yn fwy prysur ac mae hwn yn amser cyffrous a heriol i ddatblygu coedlannau cymunedol yng Nghymru. Dyma ychydig o bethau y mae Llais y Goedwig wedi ei wneud ar ran coedlannau cymunedol ac arwydd o'r hyn sydd i ddod. Edrychwch ar dudalen http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/engage-with-policy/ i weld beth rydym yn ei wneud ar hyn o bryd.

Grŵp Rhan-ddeiliaid Rheoli Coedlannau Glastir

Oherwydd bod grwpiau coedlannau cymunedol yn gleientiaid i gynllun grant Coedlannau Gwell i Gymru gofynnwyd am ac rydym wedi cael sedd ar y grŵp rhanddeiliaid sy'n cynrychioli buddiannau ymgeiswyr posibl i'r grŵp Rheoli Coedlannau Glastir sy'n cymryd ei le. Bwriedir i hwn fod yn gynllun taliadau ar gyfer coedlannau (nid yn grantiau - y bwriad yw y byddant yn prynu gwasanaethau) a fydd yn rhan o gynllun amaeth-amgylchedd Glastir. Roedd aelodau Llais y Goedwig drwy'r prosiect Pathfinder eisoes yn ymwneud â datblygu Gwell Coedlannau i Gymru ac rydym yn awyddus i weld bod hwn yn cael ei gyflwyno o fewn cynllun Rheoli Coedlannau Glastir. Fe rown fwy o wybodaeth i chi wrth iddi ymddangos.

CGGC

Gyda CCC, mae LlyG wedi cael cyfarfod gyda CGGC i edrych ar nifer o faterion yn ymwneud â mynediad at gyllid grant a hefyd ffyrdd y gallem weithio gyda'n gilydd. Os oes gennych unrhyw broblemau y hoffech inni eu codi gyda CGGC ac y credwch y gallai LlyG helpu, yna cysylltwch â Chloe.

Cymru Fyw – Fframwaith newydd i'n hamgylchedd, ein cefn gwlad a'n moroedd

Mae LlCC yn gweithio tuag at weithredu dull 'gwasanaethau ecosystemau' at reolaeth cefn gwlad. Yn gryno mae hyn yn golygu 'cymryd agwedd wirioneddol integredig at reoli ein hamgylchedd sy'n adlewyrchu cymhlethdod y modd y mae systemau amgylcheddol yn rhyngweithio, gwerth y gwasanaethau a ddarparant i gymdeithas, y pwysau a osodir gan ein hinsawdd sy'n newid, a therfynau gallu naturiol'. Ymatebodd LlyG i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr argymhellion hyn gweler see <http://llaisygoedwig.org.uk/what-we-do/engage-with-policy/>) gan wneud y pwynt y dylai cymunedau lleol fod wrth galon y gwaith o reoli cefn gwlad yn integredig. Mae'r gwaith ymhell o fod yn gyflawn ar fframwaith Cymru Fyw ac nid yw'r cynnig terfynol i fod i ymddangos am o leiaf chwe mis. Yn ystod y cyfnod hwn mae LlyG wedi gofyn am gyfleoedd pellach i ymgynghori - gwyliwch dudalen Cymru Fyw ar y wefan.

Mesur lles cenedlaethol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) a leolir yng Nghasnewydd yn datblygu mesurau newydd ynglŷn â lles cenedlaethol. Y nod yw y bydd y mesurau newydd hyn yn ymdrin ag ansawdd bywyd pobl yn y DU, materion amgylcheddol a rhai yn ymwneud â chynaliadwyedd, yn ogystal â pherfformiad economaidd y wlad. Mae'r ONS yn ymgynghori ar hyn o bryd (tan 15 Ebrill) i ofyn beth sydd fwyaf pwysig ym mywydau pobl a beth sy'n bwysig i fesur lles y genedl. Argymhellir ansawdd yr amgylchedd a'r gallu i wneud penderfyniadau lleol fel cydrannau'r mesur – felly os yw'r rhain yn bwysig i chi, yna ymatebwch i'r ymgynghoriad.
http://www.ons.gov.uk/about/consultations/measuring-national-well-being/index.html

Cymdeithas Sifil Cymunedau a Choedlannau: Cyfleoedd sy'n ymddangos 15 Chwefror, Warrington

Mae Llais y Goedwig yn noddi'r cyfarfod hwn o bobl o bob rhan o'r DU sy'n ymwneud â choedlannau cymunedol ar ran Cymru a bu Roger Davies a Jenny Wong yn gwneud cyflwyniadau ar gynnydd gyda choedlannau cymunedol a LlyG i'r cyfarfod hwn. Nod y cyfarfod yw:

1. Nodi beth sy'n cefnogi'r nod o gymunedau yn cael eu cynnwys yn fwy mewn coedlannau.

2. Nodi'r rhwystrau a'r cyfleoedd gyda hyn yn yr hinsawdd polisi ac economaidd cyfredol.

3. Ymchwilio i beth mae ein tystiolaeth a'n profiad yn ei ddangos inni am y ffactorau sy'n dylanwadu ar beth sy'n gweithio a sut.

4. Penderfynu beth sydd angen iddo ddigwydd nesaf.

5. Nodi'r negeseuon allweddol eraill ar gyfer llunwyr penderfyniadau.

Bydd adroddiad ar ddarganfyddiadau'r cyfarfod ar gael yn y diweddariad nesaf a hefyd ar y wefan.

Galluogi dewisiadau dinasyddion ynghylch defnydd tir a'r amgylchedd naturiol, 16 Chwefror, Llundain *(http://www.naturalcapitalinitiative.org.uk/50-participatory_ecosystem_approaches/)*

Mae hwn yn gyfarfod i'r DU i gyd a drefnwyd gan y Cynllun Cyfalaf Naturiol sy'n gorff i greu syniadau amgylcheddol ar draws y DU. Bydd Roger Davies yn cynrychioli LlyG a choedlannau cymunedol Cymru yn y cyfarfod hwn.

Cyllid

Mae gan wefan Llais y Goedwig wybodaeth am amrywiol gronfeydd sydd ar gael o ymddiriedolaethau elusennol i gronfeydd Ewropeaidd statudol a dolennau â chyrff sy'n gallu rhoi mwy o wybodaeth. Mae gwybodaeth hefyd am bynciau fel ysgrifennu cynllun rheoli sydd nid yn unig yn ddefnyddiol o'u rhan eu hunain ond a allant fod yn allweddol i sicrhau cyllid. Gofalwch eich bod yn gwneud defnydd o'r adnodd gwych hwn – a rhowch wybod inni os credwch fod yna unrhyw beth arall yr hoffech ei weld yno.
http://www.llaisygoedwig.org.uk